IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# NOSC 2026 Rhif 43

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL

## Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Mawrth 2026* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 19(1), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

**Enwi, dod i rym a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2026.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Ebrill 2026.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre(**2**).

(**1**) 2006 p. 42.

(**2**) Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (O.S. 1993/2838), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/912 (Cy. 223) ac O.S. 2018/887 (Cy. 176); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Cyfarwyddydau hyn.

**Diwygio Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017**

**2.** Rhaid parhau i ddarllen Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017(**1**) yn unol â'r llythyr dyddiedig Hydref 2025 gan Ben Brown (Dirprwy Gyfarwyddwr, Ansawdd, Diogelwch a Chyflyrau Clinigol) at Neil Frow (Rheolwr Gyfarwyddwr, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)(**2**), ac maent wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Diwygiadau i daliadau blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026 – 2027**

**3.**—(1) Ym mharagraff 1 o Atodlen 1 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "£23,294" rhodder "£24,179";

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "£35,327" rhodder "£36,669".

(2) Ym mharagraff 1 o Atodlen 2 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II), yn lle "£35,327" rhodder "£36,669".

(3) Ym mharagraff 1 o Atodlen 3 (Personau Cymhwysol sydd â HIV), yn lle "£35,327" rhodder "£36,669".

(4) Yn Atodlen 4 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C a HIV)—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle "£47,952" rhodder "£49,774";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle "£55,518" rhodder "£57,628";

---

(**1**) 2017 Rhif (Cy. 39), a ddiwygiwyd gan Gyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 3) 2017 (2017 Rhif (Cy. 38)), Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2018 (2018 Rhif (Cy. 54)), Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2019, Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2020 (Cy. WG20.16), Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2021 (LlC21-39), Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) (Rhif 2) 2021 (WG21-72), Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2022 (LlC22-13), Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) (Rhif 2) 2022 (LlC22-46), Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2023 (LlC23-11), Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2024 (LlC24-08) a Chyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2025 (LlC25-12).

(**2**) Gellir dod o hyd i gopi electronig ar https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-11/cynllun-cymorth-gwaed-heintiedig-cymru-newidiadau-cyfeiriad-hydref-2025.pdf.

(b) ym mharagraff 2, yn lle “£55,518” rhodder “£57,628”.

**Diwygiadau i daliadau tanwydd gaeaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026 – 2027**

**4.**—(1) Ym mharagraff 4 o Atodlen 1 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I), yn lle “£670” rhodder “£695”.

(2) Ym mharagraff 4 o Atodlen 2 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II), yn lle “£670” rhodder “£695”.

(3) Ym mharagraff 3 o Atodlen 3 (Personau Cymhwysol sydd â HIV), yn lle “£670” rhodder “£695”.

(4) Ym mharagraff 4B o Atodlen 4 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C a HIV), yn lle “£670” rhodder “£695”.



*Dr James Calvert*
Y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad *4 Mawrth 2026*